



Canllawiau CBAC am Adolygiadau Canolfannau ac apeliadau

Haf 2021



@CBAC_WJEC



WWW.CBAC.CO.UK



@CBACWJEC

Canllawiau CBAC am Adolygiadau Canolfannau ac apeliadau haf 2021

Cynnwys

Adran 1: Rhagarweiniad.....	2
Adran 2: Trosolwg o dri cham y broses adolygiad canolfannau ac apeliadau	2
Adran 3: Cam 1 – Yr adolygiad canolfannau	3
Adran 4: Cam 2 Apêl i CBAC	6
Adran 5: Cam 3 Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau Cymwysterau Cymru	8
Adran 6: Apeliadau i ymgeiswyr preifat	9
Adran 7: Gwallau gweinyddol eraill	9
Adran 8: Pwysigrwydd cadw tystiolaeth.....	9
Adran 9: Data ar adolygiadau canolfannau i'w darparu i CBAC	10
Atodiad 1: Ffurflen Cais am Adolygiad Canolfannau ac Apeliadau.....	11

Adran 1: Rhagarweiniad

Yn ei [ddogfennau](#), *Canllawiau am drefniadau amgen ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u cymeradwyo a Gwybodaeth i ddysgwyr am adolygiad canolfannau ac apeliadau yn haf 2021*, mae Cymwysterau Cymru yn amlinellu proses adolygiad canolfannau ac apeliadau. Dylid darllen canllawiau CBAC ar y cyd â dogfennau Cymwysterau Cymru.

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r cymwysterau canlynol:

- TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru
- y Dystysgrif Her Sgiliau
- Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Uned 216)

Dylid cyfeirio at ddogfen [ganllawiau'r CGC am brosesau apeliadau haf 2021](#) mewn perthynas â'r cymwysterau a ganlyn: Eduqas TGAU, Eduqas UG a Safon Uwch, Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol, Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol, Project Estynedig, Lefel 1/2 Lladin, Lefel 2 Tystysgrif mewn Mathemateg Ychwanegol, Tystysgrif Lefel Mynediad.

Dylai canolfannau yng Ngogledd Iwerddon sydd hefyd yn dilyn cymwysterau UG a Safon Uwch CBAC gyfeirio at ganllawiau'r CGC.

I gael arweiniad ynghylch apeliadau ar gyfer cymwysterau eraill, dylid cysylltu ag apeliadau@cbac.co.uk.

Bydd graddau dysgwyr ar gyfer haf 2021 yn seiliedig ar Raddau a Bennir gan Ganolfannau. Barn gyfannol yw'r radd hon sy'n seiliedig ar sut mae cydbwysedd y dystiolaeth yn cyfleu lefel cyrhaeddiad y dysgwr. Fel prosesau eraill eleni, trefniant eithriadol yw'r broses apeliadau sy'n deillio o ganslo arholiadau oherwydd y pandemig COVID-19. Gall dysgwyr ofyn am adolygiad canolfannau ac apêl ddilynol i CBAC os ydynt o'r farn bod gwall wedi'i wneud wrth bennu eu gradd. Rhaid i ddysgwyr nodi'n glir ymhle y maent yn credu y cafodd y gwall ei wneud. Dyfernir graddau ar sail barn gyfannol gyda thystiolaeth i ategu hynny. Oherwydd hynny nid oes gwasanaeth adolygu marcio nac adolygu cymedroli yn haf 2021. Canolbwyntir ar y farn gyfannol am y radd yn hytrach nag ar farcio asesiadau unigol.

Gall adolygiad canolfannau ac apêl arwain at gadw gradd y dysgwr yr un peth, codi gradd y dysgwr neu ostwng gradd y dysgwr.
--

Adran 2: Trosolwg o dri cham y broses adolygiad canolfannau ac apeliadau

Tri cham sydd yna i'r broses:


Cam 1 Adolygiad canolfannau (cyn y canlyniadau)

Cam 2 Apêl i CBAC (ar ôl y canlyniadau)

Cam 3 Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau Cymwysterau Cymru (EPRS)

Adran 3: Cam 1 – Yr adolygiad canolfannau

Mae'r diagram isod yn dangos y llwybr safonol drwy adolygiad canolfannau.



¹Fel yr amlinellir yn adran 3 (tudalen 6) canllawiau Cymwysterau Cymru: Os nad yw dysgwr yn teimlo y gall wneud perderfyniad ynghylch gofyn am adolygiad canolfan heb weld tystoliaeth ychwanegol, dim ond y dystoliaeth yr oedd y ganolfan yn dibynnu'n uniongyrchol arni wrth bennu'r radd y gall ofyn am ei gweld. Os gwneir cais am dystoliaeth sy'n mynd y tu hwnt i'r dystoliaeth y dibynnir arni wrth bennu'r radd, gall ysgolion a cholegau ei wrthod ar y sail ei fod yn gais afresymol.

O ran y cymwysterau hynny sydd o fewn cwmpas y canllawiau hyn, rhaid i ganolfannau ddarparu eu graddau rhagarweiniol i'r dysgwyr gan gynnwys ymgeiswyr preifat (Llwybr A) erbyn 30 Mehefin. Rhaid cyflwyno Graddau a Bennir gan Ganolfannau i CBAC erbyn 2 Gorffennaf.

Defnyddiodd ysgolion a cholegau drefniadau sicrhau ansawdd mewnol ac mae CBAC wedi cynnal proses sicrhau ansawdd allanol ar drefniadau haf 2021. O dro i dro, fodd bynnag, gall gwallau ddigwydd. Mae cyfle felly gan ddysgwyr i ofyn i'w canolfan wirio eu gradd os ydynt wirioneddol yn credu bod gwall wedi digwydd a bod hynny wedi effeithio'n faterol ar fanwl gywirdeb eu gradd ragarweiniol a bennwyd gan y ganolfan.

Bydd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gradd y dysgwr wedi'i chofnodi (cofnod gwneud penderfyniadau y dysgwr) Os yw dysgwr o'r farn bod gwall wedi'i wneud wrth bennu ei radd, dylai ofyn am y wybodaeth a'i hystyried. Rhaid i'r ganolfan ganiatáu 48 awr i'r dysgwyr o'r adeg y derbyniant eu gradd ragarweiniol i ofyn am y wybodaeth hon.

Os yw'r dysgwr wedyn, ar ôl ystyried y wybodaeth, o'r farn bod gwall wedi'i wneud a effeithiodd yn faterol ar fanwl gywirdeb ei radd ragarweiniol a bennwyd gan y ganolfan yna gall gyflwyno cais i'w ysgol neu goleg am Adolygiad Canolfannau. Rhaid caniatáu i ddysgwyr gael 5 diwrnod gwaith o'r adeg y derbyniant y wybodaeth i gyflwyno eu cais am adolygiad canolfannau.

Gall canolfannau fynnu y byddant ond yn derbyn adolygiad a gyflwynir ar ffurflen Cais am Adolygiad Canolfannau ac Apeliadau CBAC (Atodiad 1). Gall canolfan, fodd bynnag, ddewis derbyn cais ar ffurf arall os yw'n dymuno gwneud hynny. Rhaid i ddysgwyr esbonio'n gryno ac yn glir, ar ddechrau'r broses, pa wall sydd wedi digwydd yn eu barn nhw. Y wybodaeth y bydd y dysgwr wedi'i darparu fydd sail adolygiad y ganolfan. **Rhaid i ddysgwyr gydsynio yn ysgrifenedig cyn cynnal unrhyw adolygiad gan y gallai'r radd ragarweiniol fynd i lawr, fynd i fyny neu aros yr un peth â chanolfan sy'n cynnal adolygiad.**

Ni all dysgwyr drafod a chytuno ar y dystiolaeth sydd i'w chynnwys yn yr amrediad o dystiolaeth a ddefnyddir i bennu eu graddau. Nid yw hwn yn gyfle i ddysgwr ofyn am gynnwys un asesiad ar draul asesiad arall.

Pennir graddau cymwysterau yn haf 2021 ar farn gyfannol drwy gyfrwng system seiliedig ar raddau yn hytrach nag ar system seiliedig ar farciau. Nid oes disgwyl i ysgolion a cholegau ailfarcio asesiad(au).

Rhaid i'r ganolfan bennu terfyn amser i'w dysgwyr i gyflwyno cais am adolygiad canolfannau. Rhaid i'r ganolfan hysbysu dysgwyr na fydd ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl ei dyddiad cau yn cael eu derbyn. Gofynnir i ganolfannau gyflwyno Graddau a Bennir gan Ganolfannau i CBAC erbyn 2 Gorffennaf. Os gofynnodd dysgwr am adolygiad a'r adolygiad hwnnw'n arwain at newid gradd, rhaid i ganolfannau hysbysu CBAC bod gradd wedi newid erbyn 20 Gorffennaf. Mae angen gwneud hyn er mwyn gallu newid y radd cyn diwrnod y canlyniadau.

Dylai'r ganolfan enwebu aelod o staff wnaeth ddim ymwneud â phennu'r radd i oruchwylio'r broses adolygiad canolfannau. Fodd bynnag, gall y sawl wnaeth y penderfyniad gwreiddiol fod yn rhan o'r broses i wirio a wnaed gwall ai peidio. Nid oes disgwyl i'r ganolfan chwilio am arbenigwr pwnc annibynnol yn rhan o'r broses hon.

Canlyniad yr adolygiad hwn fydd cadarnhau a wnaed gwall ai peidio.

Os nodir gwall, mae'n bosibl y bydd y radd ragarweiniol yn aros yr un peth, yn mynd i fyny neu'n mynd i lawr o ganlyniad. Os nodir bod gwall wedi bod, efallai na fydd hynny o reidrwydd yn arwain at newid gradd. Mae'n bosibl na fydd y gwall yn ddigon i newid y radd.

Os bydd newid i'r radd yn deillio o'r adolygiad, bydd y ganolfan yn hysbysu CBAC a bydd CBAC yn cywiro'r radd.

Bydd y ganolfan yn ysgrifennu at y dysgwr gyda'i phenderfyniad gan gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- a) p'un a oedd gwall ai peidio
- b) rheswm dros y penderfyniad
- c) p'un a newidiwyd y radd ac, os felly, beth yw'r radd newydd
- ch) y rheswm dros y newid i'r radd, neu'r diffyg newid
- d) gwybodaeth am y camau nesaf os yw'r dysgwr am uwchgyfeirio'r apêl i gam 2 - apêl i CBAC.

Bydd CBAC yn darparu templed y gall canolfannau ddewis ei ddefnyddio i gyfathrebu'r canlyniad i'w dysgwyr.


Os nad yw dysgwr yn cytuno â phenderfyniad y ganolfan, nid oes unrhyw gam mewnol arall o ran adolygiad canolfannau. Mae unrhyw uwchgyfeirio yn mynd i apêl cam 2 CBAC

Gan fod y diwrnodau canlyniadau yn digwydd yn ystod gwyliau'r haf, efallai yr hoffai'r ganolfan ofyn i'r dysgwr os ydyw'n meddwl gofyn am gael cyflwyno apêl i CBAC ar ddiwrnod y canlyniadau neu wedi hynny. Byddai modd wedyn i ganolfannau baratoi ar gyfer cyflwyno apêl i CBAC ar ran y dysgwr cyn diwedd y tymor.

Mae gan ddysgwyr yr hawl i ofyn i'r ganolfan gyflwyno apêl i CBAC fel cam nesaf y broses. Os gofynnir am hynny, rhaid i'r ganolfan gyflwyno'r apêl ar ran y dysgwr yn ystod y cyfnod apeliadau, gweler adran 4.

Adran 4: Apêl Cam 2 i CBAC

Gall unrhyw ddysgwr, gan gynnwys ymgeisydd preifat, ofyn i'w ganolfan gyflwyno apêl cam 2 i CBAC os ydyw o'r farn bod gwall o hyd ar ôl canlyniad cam 1 – yr adolygiad canolfannau. Gellir cyflwyno apêl hefyd os yw'r dysgwr, ar ôl trafod â'r ganolfan, o'r farn bod CBAC wedi gwneud gwall. Er enghraifft, y ganolfan yn cadarnhau ei bod wedi cyflwyno gradd C ragarweiniol a CBAC wedi cyhoeddi gradd D.



Y rhesymau dros gyflwyno apêl cam 2 yw:

- Gwall gweinyddol neu weithdrefnol gan y ganolfan
- Y radd yn afresymol
- Gwall gan CBAC

Ni dderbynnir apêl i CBAC os na ofynnwyd am y cam cyntaf, adolygiad canolfannau, o fewn terfyn amser cyflwyno adolygiad canolfannau a'r adolygiad hwnnw wedi'i gwblhau. Dim ond

os yw'r radd ragarweiniol a gyhoeddwyd i'r ymgeisydd gan ei ganolfan a'r radd a gyhoeddwyd gan CBAC ar ddiwrnod y canlyniadau yn wahanol y bydd CBAC yn derbyn cais am apêl os nad oedd y dysgwr wedi gofyn am adolygiad canolfannau o fewn y terfyn amser.

Ni fydd CBAC yn derbyn apeliadau yn uniongyrchol oddi wrth ddysgwyr na rhieni/gofalwyr.

Rhaid cyflwyno apêl drwy system Portal CBAC.

Pan dderbynnir cais am apêl, bydd CBAC yn penderfynu a yw am dderbyn yr apêl neu beidio. Mae'r penderfyniad a ddylid derbyn y cais am apêl neu beidio yn seiliedig ar:

- a) dilysrwydd y rhesymau dros yr apêl fel y'u cyflwynwyd gan y dysgwr
- b) p'un a gwblhawyd adolygiad canolfannau ai peidio
- c) amserlen y cais
- ch) cydsyniad y dysgwr.

Os na dderbynnir cais am apêl, ysgrifennir at y ganolfan i esbonio'r rheswm (rhesymau) dros hynny. Rhaid i'r ganolfan ddarparu copi o'r wybodaeth hon i'r dysgwr.

Y wybodaeth y bydd y dysgwr wedi'i darparu a'r rheswm dros yr apêl fydd yn penderfynu dull yr apêl.

- Gwall gweinyddol gan y ganolfan: Rhagwelir y bydd gwallau gweinyddol wedi'u cywiro yn ystod adolygiad canolfannau. Os yw'r dysgwr o'r farn bod gwall gweinyddol yn bodoli o hyd, bydd CBAC yn trafod y dystiolaeth gan ystyried p'un a ddigwyddodd gwall ai peidio.
- Gwall gweithdrefnol: Bydd CBAC yn gwerthuso p'un a ddilynodd y ganolfan y weithdrefn (polisi/cynllun asesu'r ganolfan) y mae'r dysgwr yn ei herio. Gwneir hyn ar sail y wybodaeth y bydd y dysgwr wedi'i darparu. Nid yw'r ffaith bod y dysgwr yn anghytuno â chynnwys gweithdrefn yn rheswm dros apelio. Canolbwyntio ar sut cafodd y weithdrefn ei gweithredu y mae apêl.
- Gradd afresymol: bydd CBAC yn ystyried cofnod gwneud penderfyniadau'r dysgwr a thystiolaeth berthynol ac yn penderfynu a yw'r radd yn rhesymol. Dim ond os yw'r radd ymhell y tu hwnt i arffiniau barn academiaidd resymol y caiff ei hystyried yn afresymol. Ni fyddai'r dystiolaeth yn rhesymol yn gallu cefnogi'r radd a ddyfarnwyd. Ni fydd yr apêl yn ystyried gradd amgen a gyflwynir gan y dysgwr na ph'un a yw gradd amgen yn rhesymol. Gan fod natur unrhyw radd a bennir gan ganolfannau yn gyfannol, bydd yr adolygwr yn gwneud unrhyw benderfyniadau gan ddefnyddio dull cyfannol tebyg. Ni fydd yr adolygwr yn ailfarcio asesiadau unigol. Bydd yr adolygwr yn ystyried dystiolaeth asesu'r dysgwr yn ei chyfanrwydd i benderfynu a yw'r radd gyffredinol yn rhesymol ai peidio.

Gan ddibynnu ar y rhesymau a gyflwynwyd gan y dysgwr, bydd CBAC yn neilltuo'r apêl i aelod o staff hyfforddedig neu i adolygwr. Bydd adolygwr yn arbenigwr yn y pwnc sydd wedi'i benodi a'i hyfforddi gan CBAC. Bydd yr adolygwr yn gwerthuso unrhyw apêl a wneir ar sail arfer barn academiaidd yn afresymol gan y ganolfan. Mae dogfen Cymwysterau Cymru [gwybodaeth i ganolfannau am adolygiadau canolfan ac apeliadau yn ystod haf 2021](#) yn diffinio 'afresymol'.

O ganlyniad i'r apêl, bydd yr achos naill ai 'heb ei gadarnhau' neu 'wedi'i gadarnhau' yn gyfangwbl neu'n rhannol o blaid y dysgwr.

Bydd CBAC yn ysgrifennu at y ganolfan i roi gwybod iddi beth yw canlyniad yr apêl, gan nodi hefyd y rheswm (rhesymau) dros y penderfyniad.

Os digwyddodd gwall wnaeth arwain at y radd anghywir, bydd CBAC yn cywiro'r radd.

Rhaid i'r ganolfan roi copi o lythyr CBAC yn rhoi canlyniad yr apêl i'r dysgwr. Bydd y llythyr hwn yn rhoi gwybod i'r dysgwr beth yw cam nesaf y broses apelïadau – Cam 3 Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau Cymwysterau Cymru.

Dyddiadau Allweddol i'r Apêl Cam 2

TAG, Tystysgrif Her Sgiliau Uwch, Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau	
Apeliadau blaenoriaethol (i'r sawl y mae lle mewn addysg uwch i'w gadarnhau):	10 – 23 Awst
Apeliadau sydd ddim yn flaenoriaeth:	10 Awst – 17 Medi
TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen a Chenedlaethol, Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Uned 216)	
Pob apêl	24 Awst – 21 Medi

Rhaid i unrhyw ddysgwr sy'n cyflwyno cais am apêl flaenoriaethol gynnwys ei rif cyfeirnod dangosydd personol UCAS ar y ffurflen wrth wneud cais am yr apêl er mwyn gallu ei brosesu fel apêl flaenoriaethol. Dylai ymgeiswyr hefyd hysbysu eu prifysgol neu sefydliad addysg uwch arall eu bod wedi gwneud cais am apêl.

Adran 5 – Cam 3 Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau Cymwysterau Cymru (EPRS)

Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau yw cam olaf y broses apelïadau. Bwriad y cam hwn yw cadarnhau bod CBAC wedi cydymffurfio â'i weithdrefnau ei hun a gofynion Cymwysterau Cymru. Mae'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau ar gael ar gyfer cymwysterau TGAU, UG/Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau.

Ni fydd y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau yn adolygu p'un a yw'r ganolfan wedi cydymffurfio â'i pholisïau neu ei gweithdrefnau ei hun neu'r rheini a bennwyd gan CBAC iddi eu dilyn. Bydd y rhan hon o'r broses apelïadau wedi digwydd yn ystod cam 2.

Fel unrhyw flwyddyn arall, ni fydd y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau yn adolygu manwl gywirdeb y penderfyniadau graddio ac ni fydd ychwaith yn newid unrhyw raddau,

Cyhoeddwyd manylion pellach am y [Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau](#) gan Cymwysterau Cymru.

Adran 6: Apeliadau i ymgeiswyr preifat

Mae Cymwysterau Cymru wedi dogfennu'r trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat yn yr haf:

[Canllawiau i ganolfannau sy'n cofrestru ymgeiswyr preifat](#)

[Canllawiau i Ymgeiswyr Preifat](#)

Llwybr A – Llwybr a asesir gan y ganolfan	Llwybr B – Llwybr a gynhelir gan y ganolfan
Bydd proses adolygiad canolfannau ac apeliadau i ymgeiswyr preifat yr un peth â'r broses i ddysgwyr eraill yn y ganolfan.	Gan y bydd arholwyr CBAC wedi pennu'r graddau, bydd CBAC yn cynnal y cam cyntaf a'r ail gam yn y broses. Cyhoeddir canllawiau ar wahân ynghylch adolygiadau ac apeliadau ar gyfer Llwybr B i ganolfannau Llwybr B i'w cyfleu i'r dysgwyr.

Adran 7: Gwallau gweinyddol eraill

Gall canolfan weld gwallau sydd y tu allan i gwmpas y broses adolygiad canolfannau ac apeliadau a arweiniodd at beidio â chyhoeddi gradd i ddysgwyr neu gyhoeddi graddau anghywir i ddysgwyr. Gallai hyn gynnwys gwall cofrestru neu wall trawsnodi. Wrth iddi gynnal adolygiad, efallai y bydd canolfan yn gweld gwall yng ngradd dysgwr sydd ddim wedi gwneud cais am adolygiad. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i'r ganolfan hysbysu CBAC am y gwall.

Os nodir gwall cofrestru, dylai'r ganolfan gysylltu â cofrestru@cbac.co.uk am gyngor.

Os digwyddodd gwallau gweinyddol eraill, dylai'r ganolfan gysylltu â'r adran berthnasol yn CBAC:

- TAG@cbac.co.uk;
- tgau@cbac.co.uk
- ar gyfer pob cymhwyster arall llwybrau@cbac.co.uk.

Adran 8: Pwysigrwydd cadw tystiolaeth

Mae'n bwysig bod y wybodaeth a ddefnyddiwyd wrth bennu a chofnodi gradd dysgwr yn cael ei chadw'n saff, er enghraifft gwaith y dysgwr. Nid yw'n ofynnol cadw fersiwn gwreiddiol y dogfennau, bydd copi o dystiolaeth ysgrifenedig wedi'i sganio neu ddogfen ddigidol yn dderbyniol.

Rhaid i ganolfannau gadw gwybodaeth sy'n ymwneud â threfniadau mynediad dysgwr, neu amgylchiadau personol sy'n effeithio ar ei berfformiad. Bydd hyn wedi'i ystyried yn ystod y broses o bennu gradd dysgwr neu wedi'i ddiystyru gan ei fod yn amherthnasol.

Mae'n bwysig gallu cael gafael ar y wybodaeth yn amserol fel y gellir symud ymlaen mor gyflym â phosibl ag unrhyw adolygiadau canolfannau ac apeliadau.

Os bydd gwybodaeth ar goll, cyfyngir ar y graddau y gellir defnyddio'r amrediad gwybodaeth llawn yn rhan o adolygiad canolfannau neu apêl. **Fodd bynnag, dylid defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i gynnal adolygiad neu apêl.**

Adran 9: Data ar adolygiadau canolfannau i'w darparu i CBAC

Mae'n ofynnol gan Cymwysterau Cymru bod CBAC yn casglu data gan bob canolfan ynghylch nifer yr adolygiadau canolfannau yr ymgwymerwyd â nhw a chanlyniad adolygiadau o'r fath. I gyflawni'r gofynion hyn byddwn ni'n casglu gwybodaeth grynodol ar lefel uchel ynghylch cyfanswm nifer yr adolygiadau canolfannau y gofynnwyd amdanynt gan eich dysgwyr, cyfanswm nifer yr adolygiadau wnaeth arwain at ostwng y radd, a chyfanswm nifer yr adolygiadau wnaeth arwain ar godi'r graddau, ar ddiwedd yr adolygiad canolfannau. Bydd gwybodaeth ynghylch cyflwyno'r data drwy'r wefan ddiogel i'w chael erbyn 14 Mehefin. Dyddiad olaf cyflwyno'r wybodaeth i CBAC yw 20 Gorffennaf 2021.

Atodiad 1: Ffurflen Cais am Adolygiad Canolfannau ac Apeliadau

Ffurflen Gais

Adolygiad canolfannau ac apeliadau Haf 2021

(CBAC TGAU, UG a Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau, Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Gymdeithasol a Gofal Plant)

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei chyflwyno i CBAC gan eich canolfan.

Enw'r Ganolfan		Rhif y Ganolfan	
----------------	--	-----------------	--

Enw'r Ymgeisydd		Rhif yr Ymgeisydd	
-----------------	--	-------------------	--

Teitl a lefel y cymhwyster	
----------------------------	--

Gradd ragarweiniol a gyhoeddwyd	
---------------------------------	--

ADRAN 1: CAIS AM ADOLYGIAD O RADD RAGARWEINIOL A BENNWDYD GAN GANOLFAN

Yn fyr ac yn glir, esboniwch pa wall rydych chi'n credu gafodd ei wneud wrth bennu eich gradd.
Dylech chi gyfeirio at y wybodaeth yn eich cofnod gwneud penderfyniadau y dysgwr. Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'r gwall y credwch chi mae'r ganolfan wedi'i wneud wrth bennu eich gradd y dylech chi ei darparu.

Yn fyr ac yn glir, esboniwch sut rydych chi'n credu bod y gwall hwn wedi effeithio ar eich gradd.

Datganiad Cadarnhaf fy mod yn gwneud cais i adolygu fy ngradd ragarweiniol a bennwyd gan y ganolfan ar gyfer y cymhwyster uchod. Deallaf y gall fy ngradd fynd i lawr neu i fyny, neu aros yr un peth, o ganlyniad i'r adolygiad canolfannau. Cadarnhaf fod y wybodaeth sydd wedi'i darparu yn gywir. Enw'r Ymgeisydd Llofnodwyd Dyddiad

ADRAN 2: CAIS AM APÊL CAM 2 CBAC

Ydych chi'n gwneud cais am apêl blaenoriaethol ³	Ydw/nac ydw
---	-------------

Os yw eich lle yn y brifysgol mewn perygl rhaid i chi nodi eich dangosydd personol UCAS ³	
A oes Gradd/Ile ar Brentisiaeth Fodern Uwch mewn perygl yn dibynnu ar ganlyniad yr apêl	Oes/Nac oes (os ydych chi'n ateb 'oes' rhowch fanylion a nodwch y dyddiad olaf y mae'r cynnig ar gael i chi).

Rhesymau dros Apelio	Ticiwch
Gwall gweinyddol gan y ganolfan	
Gwall gweithdrefn - ni chafodd trefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig eu defnyddio na'u hystyried wrth bennu'r radd	
Gwall gweithdrefn - na ddilynodd y ganolfan ei gweithdrefn yn gywir ac yn gyson wrth gyrraedd at y canlyniad neu wrth gynnal ei adolygiad	
Roedd y farn wrth bennu'r radd yn afresymol	
Gwall CBAC - mae'r radd a gyhoeddwyd ar ddiwrnod y canlyniadau yn wahanol i'r radd ragarweiniol a gyhoeddwyd gan y ganolfan	

Darparwch unrhyw wybodaeth ychwanegol nad ydych wedi'i chynnwys uchod ynghylch y gwall rydych chi'n credu wnaeth ddigwydd wrth bennu eich gradd.
Nid oes rhaid i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Rhaid i unrhyw wybodaeth sydd wedi'i darparu uchod fod yn glir, yn gryno ac yn berthnasol.

³ Mae apeliadau blaenoriaethol ar gael ar gyfer cymwysterau Safon Uwch a chymwysterau Lefel 3 eraill os yw lle'r dysgwr yn y brifysgol neu mewn addysg uwch yn dibynnu ar ganlyniad apêl. Peidiwch â gofyn am apêl flaenoriaethol os nad yw eich lle yn y brifysgol neu mewn addysg bellach yn dibynnu arni. Eich dangosydd personol UCAS yw'r cod 10 digid sydd wedi'i gynnwys ym mhob gohebiaeth oddi wrth UCAS.

Darparwch unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd heb ei chynnwys uchod o ran sut rydych chi'n credu wnaeth y gwall effeithio ar eich gradd

Nid oes rhaid i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Rhaid i unrhyw wybodaeth sydd wedi'i darparu uchod fod yn glir, yn gryno ac yn berthnasol.

Datganiad

Cadarnhaf fy mod yn gwneud cais am apêl yn erbyn fy ngradd ar gyfer y cymhwyster a enwir uchod.

Deallaf y gall yr apêl arwain at fy ngradd yn cael ei gostwng, yn cael ei chodi neu'n aros yr un peth.

Os ydw i'n gofyn am apel flaenoriaethol, cadarnhaf fod fy lle yn y brifysgol neu mewn addysg uwch mewn perygl yn dibynnu ar ganlyniad yr apêl.

Cadarnhaf fod y wybodaeth sydd wedi'i darparu yn gywir.

Enw'r Ymgeisydd**Llofnodwyd****Dyddiad**